## CYNGOR GWYNEDD – Adroddiad i Gabinet Cyngor Gwynedd

| | |
|---|---|
| **Teitl yr eitem:** | *Siarter Angor Rhanbarthol Gogledd Cymru* |
| **Aelod Cabinet:** | *Y Cynghorydd Dilwyn Morgan* |
| **Swyddog perthnasol:** | • *Dylan Owen, Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol*<br>• *Dewi Jones, Rheolwr Gwasanaeth Cefnogi Busnes y Cyngor*<br>• *Dafydd Gwynne, Rheolwr Partneriaethau Strategol, Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr* |
| **Dyddiad y cyfarfod:** | **15 Medi 2026** |

**1. Penderfyniad a Geisir:**

1.1 Gofynnir i'r Cabinet:

- Nodi cynnwys Siarter Angor Rhanbarthol Gogledd Cymru a gymeradwywyd gan y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol ar yr 8fed Mai 2026.
- Nodi'r gwaith croesgyfeirio a gwblhawyd rhwng ymrwymiadau'r Siarter a blaenoriaethau Cynllun Cyngor Gwynedd 2023-28 a gwaith dydd i ddydd y Cyngor.
- Cydnabod bod gwaith presennol y Cyngor eisoes yn cyfrannu'n sylweddol at gyflawni amcanion y Siarter, a bod cyfle i ystyried cyfleoedd i gryfhau'r cyfraniadau hyn yn unol â blaenoriaethau Cynllun y Cyngor
- Nodi'r cyfle i rannu dysgu o'r broses croesgyfeirio, ynghyd ag enghreifftiau o ymarfer nodedig, gyda phartneriaid eraill dros y rhanbarth fel rhan o ymrwymiad y Cyngor i'r Fframwaith Lles, Atal ac Angor a gymeradwywyd gan y Bwrdd Partneriaeth Ranbarthol ar yr 8fed Mai 2026

**2. Beth yw'r rheswm pam fod angen i'r Cabinet wneud y penderfyniad:**

2.1 Bwriad cyflwyno'r adroddiad hwn yw sicrhau bod y Cabinet yn ymwybodol o'r Siarter Angor Rhanbarthol a'r modd y mae ei hegwyddorion yn cyd-fynd â blaenoriaethau a gwaith presennol Cyngor Gwynedd.

2.2 Gellir diffinio Sefydliad Angor fel sefydliad sy'n seiliedig ar le sydd â dylanwad sylweddol ar lesiant eu poblogaeth leol, yn aml drwy ffyrdd sy'n ychwanegol at eu busnes craidd, megis eu rôl fel cyflogwyr, caffaelwyr nwyddau a gwasanaethau, perchnogion adeiladau a thir, eu heffaith ar yr amgylchedd, a sut maen nhw'n ymgysylltu ac yn cynnwys eu cymunedau.

2.3 Nod y Siarter yw annog sefydliadau cyhoeddus a phartneriaid i wneud y defnydd gorau posibl o'u rôl fel cyflogwyr, comisiynwyr gwasanaethau, perchnogion asedau a sefydliadau cymunedol er mwyn gwella iechyd a llesiant, lleihau anghydraddoldebau, a chynyddu cyfleoedd economaidd a chymdeithasol i bobl leol.

2.4 Nid oes cais i'r Cabinet fabwysiadu polisi newydd **nac** ymrwymo i raglen waith ychwanegol. Yn hytrach, mae'r adroddiad yn rhoi trosolwg o'r fframwaith rhanbarthol ac yn amlygu'r cyfraniad sydd eisoes yn cael ei wneud gan y Cyngor, a hynny yng nghyd-destun cymeradwyo’r Siarter gan y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol yn gynharach eleni.

**3. Cefndir**

3.1 Dengys tystiolaeth bod anghydraddoldebau sylweddol yn parhau ar draws Gogledd Cymru. Mae’r bwlch mewn disgwyliad oes iach rhwng bobl sydd leiaf, a mwyaf, difreintiedig yn cynyddu, gyda’r data mwyaf yn diweddar yn dangos dros 12 mlynedd o fwlch mewn dynion, ac 11 mlynedd mewn merched, ar gyfartaledd.

3.2 Mewn ymateb i hyn, mae partneriaid rhanbarthol wedi bod yn cyd-ddatblygu dull gweithredu sy'n cefnogi atal, ymyrraeth gynnar a gwella llesiant drwy gydweithio ar draws sefydliadau, gan sicrhau aliniad â gyrwyr polisi a thystiolaeth allweddol yn cynnwys Deddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol ac Egwyddorion Marmot.

3.3 Cymeradwywyd y Fframwaith Lles, Atal ac Angor Rhanbarthol gan y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol ar yr 8fed o Fai 2026, sy’n cynnwys y cydrannau canlynol:

- Cyfres o Genadaethau Atal a chamau gweithredu effaith uchel, sy’n ymateb i ddangosyddion ehangach iechyd
- Siarter Angor Rhanbarthol, gan wneud y gorau o rôl Sefydliadau Angor
- Adnoddau i gryfhau dysgu system o amgylch lles, atal ac ymyrraeth gynnar, gan gynnwys cronfa o arfer nodedig
- Ymrwymiad i weithio gyda'n cymunedau fel partneriaid cyfartal.

3.4 Nod y Fframwaith a ddatblygwyd dan arweiniad y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol, gyda chefnogaeth gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, yw darparu dull system gyfan i alluogi sefydliadau a phartneriaethau ledled Gogledd Cymru i weithredu ar y cyd i fynd i'r afael â'r ffactorau sy'n dylanwadu ar iechyd a llesiant pobl, gan gryfhau rôl sefydliadau angor yn lleol a rhanbarthol.

3.5 Datblygwyd y Siarter Angor drwy ddull cyd-gynhyrchu gyda nifer eang o bartneriaid ar draws y rhanbarth. Mae'r broses wedi tynnu sylw at nifer o enghreifftiau o waith sydd eisoes yn digwydd ar draws y rhanbarth i wella iechyd a llesiant cymunedau a lleihau anghydraddoldebau.

3.6 Mae'r Siarter yn canolbwyntio ar bum prif thema:
- Gweithlu, cyflogaeth a sgiliau;
- Adeiladau a Thir
- Effeithiau amgylcheddol;
- Cyfranogiad cymunedol
- Caffael a gwariant

3.7 Mae sefydliadau angor yn cael eu hannog i ddefnyddio eu dylanwad fel cyflogwyr, comisiynwyr gwasanaethau, perchnogion asedau a phartneriaid cymunedol i sicrhau'r llesiant gorau posibl i bobl a chymunedau lleol. Mae copi o'r Siarter wedi ei gynnwys fel atodiad i'r adroddiad hwn.

**3.8 Gwaith Mapio**

3.8.1 Er mwyn asesu perthnasedd y Siarter i Gyngor Gwynedd, cwblhawyd ymarfer croesgyfeirio rhwng ymrwymiadau'r Siarter, blaenoriaethau Cynllun Cyngor Gwynedd 2023-28, a gwaith dydd i ddydd y Cyngor.

3.8.2 Dangosodd yr ymarfer fod cysylltiad cryf rhwng amcanion y Siarter a llawer o waith craidd y Cyngor, gan gynnwys:
- Cefnogi pobl Gwynedd i mewn i waith;
- Datblygu sgiliau a llwybrau cyflogaeth;
- Hybu defnydd o'r Gymraeg;
- Cefnogi llesiant pobl a chymunedau;
- Cyflawni amcanion y Cynllun Argyfwng Hinsawdd a Natur;
- Cadw budd economaidd yn lleol drwy waith caffael a datblygu economaidd

3.8.3 Mae'r asesiad hefyd yn dangos bod y Cyngor eisoes yn gweithredu mewn modd sy'n adlewyrchu llawer o ymrwymiadau'r Siarter drwy waith dydd i ddydd gwasanaethau'r Cyngor. Mewn nifer o feysydd sgoriwyd perfformiad y Cyngor dros 3 allan o 5, gyda rhai meysydd megis hyrwyddo'r Gymraeg yn sgorio'n uwch.

3.8.4 O ran ymrwymiad i sicrhau gwelliant parhaus, rhestrir isod yr elfennau a sgoriodd 3 neu lai yn yr hunan asesiad. Mae cyfle i’r Cyngor ystyried cyfleoedd i ymateb i rhain fel rhan o gynlluniau busnes corfforaethol, ac i rannu ymarfer da rhwng adrannau’r Cyngor.

3.8.5 Er mwyn codi ymwybyddiaeth o'r Siarter a'i pherthnasedd i waith y Cyngor, cyflwynwyd y gwaith croesgyfeirio i'r Tîm Rheoli Corfforaethol. Rhoddodd hyn gyfle i

drafod y Siarter mewn cyd-destun trawsadrannol ac i adnabod sut mae gwasanaethau'r Cyngor eisoes yn cyfrannu at ei hamcanion. Roedd y drafodaeth hefyd yn amlygu pwysigrwydd parhau i gydweithio ar draws adrannau'r Cyngor er mwyn gwneud y defnydd gorau posibl o'n rôl fel sefydliad angor.

3.8.6 Yn gyffredinol, mae'r gwaith croesgyfeirio yn awgrymu bod Cyngor Gwynedd ar drywydd cadarn o safbwynt egwyddorion y Siarter ac eisoes yn gwneud cyfraniad sylweddol tuag at ei hamcanion.

**4. Camau nesaf**

4.1 Mae'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol eisoes wedi mabwysiadu'r Siarter Angor Rhanbarthol fel rhan o'r gwaith ehangach i gryfhau llesiant ac atal anghydraddoldebau ar draws Gogledd Cymru.

4.2 Diben cyflwyno'r adroddiad hwn i'r Cabinet yw:

- Codi ymwybyddiaeth a rhoi cyhoeddusrwydd i'r Siarter o fewn trefniadau llywodraethu'r Cyngor
- cydnabod y cyfraniad cadarnhaol y mae'r Cyngor eisoes yn ei wneud tuag at ei hamcanion
- ymrwymiad i rannu ymarfer nodedig a dysgu yn rhanbarthol
- adnabod cyfleoedd i gryfhau ein cyfraniad fel Sefydliad Angor drwy roi sylw i'r meysydd a sgoriodd isaf yn yr asesiad

**5. Sylwadau Swyddogion Statudol.**

**5.1 Prif Swyddog Cyllid**

Rwyf yn fodlon na fydd y penderfyniad a geisir yn creu ymrwymiadau gwariant newydd.

**5.2 Swyddog Monitro**

Dim sylwadau i'w hychwanegu o safbwynt priodoldeb

**Rhestr Atodiadau:**

1. Siarter Angor Gogledd Cymru

2. Mapio Amcanion y Siarter Angor yn Erbyn Cynllun Cyngor Gwynedd